Tasg 1

Teg edrych tuag adre

1. Pwy, yn eich barn chi, yw awdur y darn hwn? Rhowch gymaint o fanylion â phosib, e.e.
   - Bachgen neu ferch? – Pam?
   - Oed? Pam?
   - Ble mae'n byw? Pam?
   - O ble mae'n dod yn wreiddiol? Pam?
   - Pa fath o fywyd mae'n ei fyw? Pam?

2. Ble mae'r awdur yn y darn hwn? Pa eiriau neu ymadroddion sy'n gwneud i chi feddwl hynny?

3. Pam, yn eich barn chi, mae'r dyn yn cynnig rhoi brechdan yn hytrach nag arian?

4. Pa fath o berson yw'r dyn? Rhowch resymau i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

5. Sut mae teimladau'r awdur yn newid drwy'r darn? Defnyddiwch dystiolaeth o'r darn i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

6. Sut mae'r ddihareb "Teg edrych tuag adre" yn addas i'r darn hwn?